

CONTACT



Goleuadau
Nadolig yn cael
eu goleuo - ewch
i **dudalen 3**
i weld mwy



merthyrtydfilCBC



@MerthyrCBC



www.merthyr.gov.uk



Croeso i'r rhifyn hwn o gylchgrawn cymunedol Cyswilt.



Fel y bydd llawer ohonoch yn gwybod, nid ydw i erioed wedi bod yn gynghorydd o'r blaen – felly bu'r wyth mis diwethaf yn heriol iawn, gan fod gen i lawer i'w ddysgu o hyd ynghylch yr hyn mae fy rôl fel cynghorydd yn ei olygu.

Yn y bôn, y peth pwysicaf i mi yw fod aelodau o'r cyhoedd yn gallu cael gafael arnom yn hawdd, ac rydym yn ceisio eich helpu gyda'ch problemau a datrys materion yn gyflym. Pan fyddaf yn cwrrd â phreswylwyr o ddydd i ddydd, rydych yn dweud wrthyf eich bod yn hoff o'r ymagwedd newydd hon a'ch bod yn credu fod pethau'n gwellu ym Merthyr Tudful.

Mae gennym nifer o ddigwyddiadau ymgynghorol sy'n cael eu rhedeg ar hyn o bryd sy'n gofyn i chi sut yr ydych chi'n meddwl y dylem ni wario ein cyllideb. Fe welwch chi fi ac aelodau fy nghabinet mewn amrywioleoliadau ledled y fwrdeistref sirol ac mae'n hanfodol eich bod chi'n siarad â ni i fynegi eich safbwyntiau.

Rydym am i Ferthyr Tudful fod yn lle diogel a hyfyw; lle ble y mae pobl am fyw ynddo, ymweld ag ef a chymdeithasu yno. Rydym yn gweithio'n agos â'r heddlu, arbenigwyr diogelwch cymunedol a grwpiau gwirfoddol i wneud canol ein tref, yn benodol, yn lle gwell i fod ynddo. Fe welwch ragor o heddlu ar y strydoedd y Nadolig hwn, a gweithrediadau'n cymryd lle sy'n ymwneud â materion ynghylch trwyddedu, dwyn o siopau a thrais yn hwyr gyda'r nos.

Rydym ni hefyd am gefnogi chwaraeon llawr gwlad o bob math, yn ogystal â chydabod y rheini sy'n cymryd rhan. Yn ystod ein wyth mis cyntaf, rydym wedi cefnogi pêl-droed, jiwdo, carate, paffio a thaicwando. Mae peth arian yn parhau i fod ar gael, felly gofynnwch i'ch cynghorydd lleol a ydych yn gymwys amdano.

Y mae'n bwysig gofalu ar ôl y rhai llai ffortunos na ni'n hunain ac rydym wedi canfod, ynghyd â phartneriaid, ychydig o arian i gefnogi'r Banc Bwyd lleol a darparu llety i'r digartref dros y Nadolig.

Mae cynlluniau ar y gweill i adeiladu nifer fawr o gartrefi newydd – ond rydym am i'r cartrefi hyn fod yn rhan o adeiladu cymunedau newydd ble mae yna ddigon o wagleoedd gwyrdd agored i chwarae ac ymlacio ynddynt. Yn ogystal ag annog pobl i fyw ac aros ym Merthyr Tudful, rhaid i ni hefyd ddangos ymwybyddiaeth o'n hamgylchedd a'n treftadaeth ddiwylliannol.

Hoffwn ddymuno Nadolig Llawn iawn i chi i gyd a Blwyddyn Newydd lewyrchus ac edrychaf ymlaen at glywed eich safbwyntiau yn ein cynlluniau ar gyfer 2018 a thu hwnt.

Kevin O'Neill

Kevin O'Neill
Arweinydd CBSMT

Y CYNGOR YN LLETHU AR 'GABIAU' HEB



YDYCH CHI'N TORRI'R GYFRAITH? ARE YOU BREAKING THE LAW?

Os ydych yn cludo pobl yn eich cerbyd ac yn derbyn tâl am wneud hynny, yna YDYCH!

Fe ddisothom ni i wybod am nifer cynyddol o bobl sy'n gynnwys "lifftiau". Mae angen i chi fod yn ymwybodol bod cludo pobl am arian heb y trwyddedau perthnasol yn anghyfreithlon.

Os ydych chi'n rhoi "lifftiau" am arian, rydych chi'n torri'r gyfraith a gallech gael:

- Colmod troseddol am weithredu fel taci heb drwydded
- Eich cerbyd yn cael ei atafaelu gan yr Heddlu am yswiriant annilys
- Anghyfreithio rhag gyrru.

Os hoffech wybod sut i fod yn yrrwr taci trwyddedig neu os dda chi gennych swyddu weithredu cerbydau heb y trwyddedau, cyffwrdd â'r Adran Dreuddedau - licensing@merthyr.gov.uk neu ffoniwch 01685 725000.

If you transport people in your vehicle for payment, then YES!

We have been made aware of an increasing number of people offering "lifts". You need to be aware that transporting people for profit without the relevant licences is illegal.

If you give "lifts" for money, you are breaking the law and could end up with:

- A criminal record for acting as an unlicensed taxi
- Your vehicle being seized by Police for invalid insurance
- A disqualification from driving.

If you wish to find out how to become a licensed taxi driver or if you have any information on unlicensed drivers, please contact the Licensing Department - licensing@merthyr.gov.uk or 01685 725000.



Ydych chi'n defnyddio taci? A yw'n drwyddedig? Ydych chi'n gwybod beth yw'r risgiau?

Gwnewch yn siŵr eich bod dim ond yn defnyddio taci trwyddedig!

Rhaid i gerbydau sydd wedi'u trwyddedu gan CBSMT Merthyr Tudful ddangos yr arwyddion a'r stocerau diogelwch y cyhoedd.



Gallu defnyddio cerbydau heb drwydded eich rhoi mewn perygl! Mae gyrrwr a cherbydau trwyddedig yn cael gwirio'n niferus gan y Cyngor i sicrhau diogelwch y cyhoedd.

I wneud ein perthol heb drwydded neu os gennych wybodaeth, cyffwrdd â'r Adran Dreuddedau - licensing@merthyr.gov.uk neu ffoniwch 01685 725000.

Do you use a taxi? Is it licensed? Do you know the risks?

Make sure you only use a licensed taxi!

Vehicles licensed by Merthyr Tydfil County Borough Council have to display these signs and door stickers.



Using unlicensed vehicles could put you in danger! Licensed drivers and vehicles undergo numerous checks by the Council to ensure public safety.

To report an unlicensed vehicle or for more information, please contact the Licensing Department - licensing@merthyr.gov.uk or 01685 725000.

Mae preswylwyr Merthyr Tudful yn cael eu hannog i gadw'n ddiogel y Nadolig hwn a derbyn cyngor y swyddogion safonau masnach a'r heddlu a defnyddio tacsis trwyddedig yn unig.

Yn ddiweddar, lansiodd CBSMT 'Gweithredu i Ddiogelu,' ymgyrch gyhoeddusrwydd a gorfodi er mwyn sicrhau fod pawb sydd allan yn dathlu'r Nadolig yn defnyddio tacsis trwyddedig i fynd â hwy o le i le yn ystod y nos.

"Mae'n holl yrwyrr a'n cerbydau trwyddedig yn destun gwiriadau fetio a diogelwch er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel," meddai Paul Lewis, Rheolwr Safonau Masnach a Thrafnidiaeth i Ysgolion

"Eleni, byddwn yn canolbwyntio ar dacsis anghyfreithlon, yn

enwedig ar bobl ifanc sy'n cynnig 'liffts' – hynny yw, yn defnyddio'u cerbydau personol i fynd â ffrindiau adref yn gyfnewid am dâl.

Mae'n masnachwyr trwyddedig wedi dweud wrthym ei fod yn broblem gynyddol ac mae'n gystadleuaeth annheg iddynt hwy yn ogystal â bod yn beryglus i'r sawl sy'n eu defnyddio."

Bydd yr ymgyrch yn canolbwyntio'n benodol ar ardal Stryd Dinefwr sydd ar hyn o bryd yn destun pryder yn ogystal â lleoliadau eraill ynghanol y dref sy'n boblogaidd yn ystod economi'r nos.

Bydd swyddogion trwyddedau a'r heddlu ar batrôl yn y dref er mwyn archwilio cerbydau

ac maent yn rhybuddio y gall perchnogion cerbydau heb eu trwyddedu gael eu herlyn am fasnachu heb drwydded ac o bosib cael eu cerbydau wedi eu cymryd oddi wrthynt am yrru heb yswiriant addas.

"Byddwn hefyd yn sicrhau y bydd masnachwyr trwyddedig yn gweithredu oddi fewn i amodau eu trwyddedau," dywedodd Paul Lewis. **"Mae hyn yn cynnwys y defnydd cywir o fesurddion a'u bod yn codi'r tâl rhagnodedig cywir."**

Dywedodd Aelod Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful dros Adfywio a Gwarchod y Cyhoedd, y Cyng. Geraint Thomas: "Does neb yn wirioneddol elwa o bobl

Gadewch i ni fod yn RHAG-GYMDEITHASOL y Nadolig hwn

Mae tim Diogelwch Cymunedol y Cyngor yn annog pobl i fwynhau Nadolig diogel a chymdeithasol drwy ddilyn y cynghorion canlynol: Dros dymor yr yll rydym am i bawb gael amser da a mwynhau eu hunain. Yn ystod yr adeg hon o'r flwyddyn gall ymddygiad gwrthgymdeithasol o ganlyniad i alcohol fod ar gynydd a rhoi pwysau ychwanegol ar y gwasanaethau brys.

Gofynnwn i chi gymryd gofal ychwanegol os ydych yn cynnal neu'n mynd i bartion Nadolig. Gallwch fod yn gwrtais tuag at eich cymdogion a siarad â nhw yn gyntaf er mwyn osgoi creu niwsans neu achosi unrhyw anghydfod.

Os ydych chi'n dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol, dylech bob amser ei nodi drwy ffonio 101, neu, yn achos argyfwng, ffoniwch 999.

Os ydych yn profi ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud ag eiddo, gallwch hefyd gysylltu â'ch cymdeithas dai neu'ch landlord am gymorth yn ogystal â ffonio 101.

Am gymorth a chynghor cyffredinol, gallwch hefyd ffonio CBSMT ar 01685 725000 a gofyn am Ddiogelwch Cymunedol.

sy'n ceisio gwneud arian drwy gynnig lifftiau hwyr. Yn ogystal ag effeithio ar fywoliaeth ein gyrrwyr tacsis, gallent hefyd fod yn rhoi bywydau eu teithwyr dan fygythiad."

Teimlo'n anniogel? Gofynnwch am Angela!

Mae ymgyrch diogelwch arloesol sy'n galluogi pobl sy'n teimlo'n anniogel mewn tafarndai neu fariau wneud arwyddion cynnil am help yn cael ei ledaenu ledled Merthyr Tudful y Nadolig hwn.

Mae'r cynllun yn annog cwsmeriaid, a allai fod yn teimlo o dan fygythiad neu'n anniogel ar ôl cwrrd â rhywun, i chwilio am help drwy fynd at y bar a 'Gofyn am Angela'.

Mae'r Heddlu yn hyfforddi staff mewn bariau, clybiau a thafarndai i ymateb i'r arwydd ddiogelwch. Yna, gall y person sy'n 'gofyn am Angela' gael ei gymryd i'r naill ochr neu i leoliad diogel fel ei fod yn gallu siarad yn gyfrinachol am ba help a allai fod angen.

Yna, gall staff alw am daci, cysylltu â'i ffrindiau neu deulu, neu ofyn i'r person sy'n achosi'r bygythiad adael y lleoliad.

Mae poster a gynlluniwyd i gyd-fynd â'r ymgyrch yn cael

ei arddangos ym mhob lleoliad trwyddedig ledled Merthyr Tudful ar hyn o bryd.

"Mae ein tafarnwyr yn aml yn siarad am ddiogelu ac maen nhw'n cymryd eu cyfrifoldebau i'r cwsmeriaid yn gwbl ddirifrol," dywedodd Mike Jacklin, Cydlynnydd Partneriaeth Gostwng Trosedd Busnes Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, sydd wedi trefnu'r cyfranogi lleol gyda Gofyn am Angela. "Maen nhw wedi cofleidio'r fenter ac yn sicrhau bod eu staff yn barod i ddellio ag unrhyw broblemau mewn ffordd gynnil."

Dywedodd y Cynghorydd Geraint Thomas, Aelod Cabinet CBSMT dros Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd: "Mae hon yn ymgyrch arloesol a gobeithio y bydd yn hynod o effeithiol wrth helpu pawb allan o sefyllfa anodd. Mae'r Cyngor wrth eu bodd bod ein trwyddedwyr wedi cytuno ac yn arddangos y poster i yn eang."

DIMMWY

#GOFYNAMANGELA

HELO, ANGELA YDW I,

YDYCH CHI AR DDÊT SYDD DDIM YN MYND YN GRÊT?

YDYCH CHI'N TEIMLO NAD YDYCH CHI MEWN SEFYLLFA DDIOGEL?

YW EICH DÊT TINDER NEU POF YN WAHANOL I'R HYN SYDD AR EU PROFFIL?

YWR HOLL BETH YN TEIMLO'N RHYFEDD?

OS CYSYLLTICH CHI AG AELOD O STAFF A GOFYN AM 'ANGELA' BYDDANT YN GWYBOD BOD ANGEN HELP ARNOCH CHI I DDOD ALLAN O'CH SEFYLLFA A BYDDANT YN FFFONIO I DREFNU TACSI AR EICH OFFER NEU'N EICH HELPU CHI MEWN MODD DIFFNDAN



Nadolig 2017

ym Merthyr Tudful



Redhouse Cymru Presents / Yn Cyflwyno

Cinderella

THE GREATEST PANTO OF THEM ALL

ON
WEDNESDAY 13TH – SATURDAY 23RD DECEMBER
DYDD MERCHER 13EG – DYDD SADWRN 23AIN RHAGFYR

TIMES

Wed/Mer 13th – 7pm
Thursday/lau 14th – 7pm
Saturday/Sad 16th – 2.30pm
Monday/Llun 18th – 7pm
Tuesday/Mawrth 19th – 7pm
Wednesday/Mercher 20th – 7pm
Thursday/lau 21st – 7pm
Friday/Gwener 22nd – 7pm
Sat/Sad 23rd – 2.30pm & 7pm

School Performances Available
£12 Adult / £10 Concession / £38 Family (2 Adults+2 Children)

REDHOUSE
www.redhousecymru.com
01685 384111
info@redhousecymru.com

Old Town Hall, High Street, Merthyr Tydfil, CF47 8AE
Hori Neuadd y Dref, Stryd Fawr, Merthyr Tudful, CF47 8AE

Merthyr Tydfil Leisure Trust Limited is a company limited by guarantee with charitable status.
Company No 08112750. Registered Charity No. 1108084

Merthyr Tydfil
Merthyr Tudful

Facebook Twitter





PEIDIWCH AG ANGHOFIO AILGYLCHU DROS Y NADOLIG!



Rydym ni i gyd yn prynu llawer ac yn defnyddio llawer dros y Nadolig ond mae'n hawdd ailgylchu deunyddiau'r cartref achos gellir ailgylchu llawer ohono bellach. O becynnau bwydydd a diodydd plastig i focsys cardfwrdd a

oedd yn cynnwys anrhegion o dan y goeden Nadolig, mae amrywiaeth eang o becynnau y gallwch eu rhoi yn y blychau ailgylchu ac yn y sach ailddefnyddio.

Mae Cinio Nadolig, dathliadau'r Flwyddyn Newydd

a ffrindiau a theulu'n galw heibio yn arwain at yr un peth - oergelloedd a chypyrddau sy'n llawn dop o fwyd a diod. Gall poteli diodydd plastig, tybiau a chynhwysyddion fynd yn syth i'r sach ailgylchu las ond cofiwch eu golchi'n gyflym â dŵr a sebon a gwaredu pob caead plastig. Gwnewch yr un fath â chaniau diodydd a thuniau bwyd a rhowch hwy yn eich blychau ailgylchu neu yn eich sach ailgylchu las. Gallwch hefyd fynd â hwy i'ch Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref (CAGC) agosaf. Gall bocsys wyau a chloriau cardfwrdd o becynnau bwyd gael eu hailgylchu hefyd.

SICRHEWCH FOD YR HOLL DDEUNYDDIAU WEDI CAEL EU DIDOLI A BOD CARDFWRDD WEDI CAEL EI WASTADU CYN I CHI GYRRAEDD EICH CAGC

Gellir rhoi gwastraff bwyd tebyg i grafion llysiau, esgyrn twrci, bagiau te, gwaddodion coffi neu unrhyw fwyd sydd allan o ddyddiad yn eich blwch gwastraff bwyd a'u hailgylchu hefyd - sicrhewch eich bod yn gwaredu unrhyw becynnau yn gyntaf cyn eu rhoi yn eich blwch bwyd.

Wrth i chi dreulio rhagor o amser yn ymbaratoi ar gyfer nosweithiau allan dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, cofiwch y gall deunyddiau ymolchi fel gel cawod a photeli siampŵ, diaroglyddion ac erosolau gel eillio - yn ogystal ag unrhyw becynnau cardfwrdd oedd o'u hamgylch gael eu hailgylchu yn ogystal.

COED NADOLIG

Bydd y Cyngor yn casglu eich coeden Nadolig go iawn ar gyfer ei gompostio am bythefnos yn ystod mis Ionawr (Dydd Mawrth 3 Ionawr – Dydd Mawrth 17 Ionawr.) Torrwch y goeden yn ddarnau bach (dim hirach na 1.5 metr a dim trymach na 25kg) – gellir eu rhoi allan i'w casglu

gyda'ch ailgylchu.

PAPUR LAPIO A CHARDIAU NADOLIG

Nid oes modd i ni gasglu papur lapio Nadolig gan nad yw o ansawdd da ac yn aml bydd yn cynnwys deunyddiau na allwn eu hailgylchu tebyg i rubanau, bowiau, glitter a thâp felly byddai eu casglu gyda'n papur ar ymyl y ffordd yn halogi'r llwyth allai arwain ato'n cael ei wrthod gan ein contractwyr sydd ond yn gofyn am bapur newydd, cylchgronau a phapur swyddfa. Mae'r un yn wir am gardiau Nadolig sydd yn aml yn cynnwys glitter, glud a rhubanau. Bydd angen i'r rhain i gyd gael eu gosod yn eich bin olwynion. Nodwch – mae'n CAGC ar gau Ddydd Nadolig ac ar Ddydd Calan.

Hoffwn ddiolch i bawb sy'n cyfrannu at ein cynllun ailgylchu a dymuno Nadolig Llawn i chi gyd!

www.recycleformerthyr.co.uk
www.merthyr.gov.uk
e-bost: Wasteservices@merthyr.gov.uk
ffôn: 01685 725000

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL TREFNIADAU GWYLIAU'R NADOLIG A'R FLWYDDYN NEWIDIADAU

Bydd y Ganolfan Ddinesig a swyddfeydd ac adrannau eraill y Cyngor ar agor o 8.30yb – 2yp ar Dydd Gwener 22 Rhagfyr ac ar gau ar y diwrnodau canlynol:

Dydd Llun	25 Rhagfyr 2017
Dydd Mawrth	26 Rhagfyr 2017
Dydd Llun	1 Ionawr 2018

CASGLU YSBWRIEL AC AILGYLCHU OCHR FFORDD

Diwrnod casglu arferol	Cesglir ar
Dydd Gwener 22 Rhagfyr	Y diwrnod casglu arferol
Dydd Llun 25 Rhagfyr	Dydd Mercher 27 Rhagfyr
Dydd Mawrth 26 Rhagfyr	Dydd Iau 28 Rhagfyr
Dydd Mercher 27 Rhagfyr	Dydd Gwener 29 Rhagfyr
Dydd Iau 28 Rhagfyr	Dydd Sadwrn 30 Rhagfyr
Dydd Gwener 29 Rhagfyr	Dydd Sul 31 Rhagfyr
Dydd Llun 1 Ionawr	Dydd Mawrth 2 Ionawr
Dydd Mawrth 2 Ionawr	Dydd Mercher 3 Ionawr
Dydd Mercher 3 Ionawr	Dydd Iau 4 Ionawr
Dydd Iau 4 Ionawr	Dydd Gwener 5 Ionawr
Dydd Gwener 5 Ionawr	Dydd Sadwrn 6 Ionawr
Dydd Llun 8 Ionawr	Y diwrnod casglu arferol

SAFLE MWYNDERAU DINESIG

Bydd y Safle Mwynderau Dinesig ar gau Dydd Llun, 25 Rhagfyr 2017 a Dydd Llun 1 Ionawr 2018. Mae amseroedd agor arferol y gaeaf (9yb - 4:30yp) yn weithredol ar bob dyddiad arall.

COFRESTRYDDION

Dydd Gwener 23 Rhagfyr	8.30yb – 12yp
Dydd Llun 25 Rhagfyr	Ar gau
Dydd Mawrth 26 Rhagfyr	Ar gau
Dydd Mercher 27 Rhagfyr	Oriau agor arferol
Dydd Iau 28 Rhagfyr	Oriau agor arferol
Dydd Gwener 29 Rhagfyr	Oriau agor arferol
Dydd Llun 1 Ionawr	Ar gau
Dydd Mawrth 2 Ionawr	Oriau agor arferol

ATGYWEIRIO TAI/CARTHFFOSYDD MEWN ARGYFWNG

Y rhif ffôn ar gyfer achosion brys yn ymwneud â charthffosiaeth yng nghartrefi Merthyr Valley Homes yn ystod y gwyliau yw (01685) 385231. Gyda phroblemau carthffosiaeth mewn tai ac eiddo eraill ffoniwch Dŵr Cymru ar 08000 853968.

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL:

Dydd Gwener 22 Rhagfyr	8.30yb – 2yp – Ar agor fel arfer
	2yp–4.30yp -Swyddog ar Ddyletswydd Gwasanaethau Plant
	01685 724506
	2yp–4.30yp- Swyddog ar Ddyletswydd Gwasanaethau Oedolion
	01685 351267
	4.30yp ymlaen – Tîm Dyletswydd Argyfwng 01443 743665

Dydd Sadwrn 24 – Dydd Mawrth 27 Rhagfyr - Ar gau - Tîm Dyletswydd Argyfwng 01443 743665

Dydd Mercher 27 Rhagfyr	Oriau agor arferol
Dydd Iau 28 Rhagfyr	Oriau agor arferol
Dydd Gwener 29 Rhagfyr	Oriau agor arferol

Dydd Sadwrn 30 Rhagfyr – Dydd Llun 1 Ionawr - Ar gau - Tîm Dyletswydd Argyfwng 01443 743665

Dydd Mawrth 2 Ionawr	Oriau agor arferol
----------------------	--------------------

TREFNIADAU CLADDU

Noder os gwelwch yn dda y bydd y Swyddfa Gwasanaethau Profedigaeth ar gau ar Ddydd Llun 25 a Dydd Mawrth 26 Rhagfyr 2017 ac ar Ddydd Llun 1 Ionawr 2018.

Bydd y trefniadau claddu fel a ganlyn:

Y cais am gladdu yn dod i law:	Dyddiad yr angladd:
Dydd Mercher 20 Rhagfyr	Dydd Mercher 27 Rhagfyr
Dydd Iau 21 Rhagfyr	Dydd Iau 28 Rhagfyr
Dydd Gwener 22 Rhagfyr	Dydd Gwener 29 Rhagfyr
Dydd Mercher 27 Rhagfyr	Dydd Mawrth 2 Ionawr
Dydd Iau 28 Rhagfyr	Dydd Mercher 3 Ionawr
Dydd Gwener 29 Rhagfyr	Dydd Iau 4 Ionawr
Dydd Mawrth 2 Ionawr	Dydd Gwener 5 Ionawr

Bydd y swyddfa ar agor fel arfer o Dydd Mawrth 2 Ionawr 2018.

Fe'ch atgoffir na ellir cynnal claddedigaethau ar ddydd Sul, Gwener y Groglith na Llun y Pasg, Gwyliau Banc nac ar unrhyw wyliau a benodir ar gyfer Diolchgarwch neu Alar cyhoeddus, ac eithrio mewn achosion o argyfwng, i'w ardystio gan Grwner neu Ymarferydd Meddygol Cofrestredig, a rhaid i gladdedigaethau o'r fath ddigwydd cyn hanner dydd.

Os cewch chi unrhyw anawsterau gyda'r trefniadau hyn, ffoniwch y Swyddfa Gwasanaethau Profedigaeth ar 01685 725145 cyn gynted â phosib.

Noder bod holl fynwentydd CBSMT ar agor i'r cyhoedd bob dydd o'r flwyddyn yn cynnwys Diwrnod Nadolig, os bydd y tywydd yn caniatáu

Gareth Chapman
Prif Weithredwr



Ymgynghori â phreswylwyr ar fynedfa gerbydau mynwent

Wrth fynd i'r Wasg, roedd y Cyngor yn y broses o gynnal ymarfer gwranddo ac ymgysylltu i geisio barn y cyhoedd mewn perthynas ag

ail-gyflwyno amseroedd agor a chau mynediad cerbydau i'n mynwentydd.

Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus yn dilyn yr ymarfer

hwn a bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus cyffredinol yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cyngor Llawn i'w hystyried, a chaiff

phenderfyniad ei wneud yn sgil hyn ar yr amseroedd agor a chau.

Am ragor o wybodaeth am hyn, e-bostiwch corporate.

communications@merthyr.gov.uk neu ffoniwch (01685) 725052/725166.



Gwahodd preswylwyr i ddweud eu dweud ar Gyllideb y Cyngor ar gyfer 2018/19

Mae preswylwyr Merthyr Tudful yn cael eu holi am eu safbwyntiau ar sut ddylai'r Cyngor wario cyllideb 2018/19.

Hoffai'r awdurdod glywed safbwyntiau pobl leol am yr hyn y maen nhw'n tybio ddylai fod yn flaenoriaethau yn ystod blwyddyn arall lle bydd yn rhaid dod o hyd i arbedion yn sgil lleihad mewn ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Mae ymarfer ymgynghorol cynhwysfawr yn cael ei gynnal, yn cynnwys digwyddiadau ymgysylltiol ledled y Fwrdeistref Sirol, gydag aelodau o'r Cabinet ar gael i wrando ar gwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd a chasglu unrhyw argymhellion i'w trafod yn ddiweddarach ganddynt.

Mae'r Cyngor yn defnyddio ei wefan a'i gyfrifon cyfryngau cymdeithasol – CBS Merthyr Tudful ar Facebook a @MerthyrCBC ar Twitter – er mwyn hysbysu preswylwyr o'r modd y gallan nhw gyfranogi yn yr ymgynghoriad a phryd y bydd digwyddiadau'n cael eu cynnal.

Derbyniodd Merthyr Tudful Setliad Refeniw o -1% ar gyfer 2018/19, lleihad ariannol o £906,000 ers 2017/18. Dyma'r Setliad gwaethaf ers tair blynedd a'r canlyniad yw y bydd yn rhaid i Ferthyr Tudful gyflawni toriadau cyllidebol pellach o £2.9 miliwm er mwyn cydbwysu'r llyfrau ar gyfer 2018/19. Mae'r parhad hwn mewn llymder yn golygu y bydd toriadau i'r gwasanaethau a ddarperir i'r gymuned yn anochel.

Mae'r Setliad dangosol ar gyfer y flwyddyn ddilynol, 2019/20 yn

doriad pellach o -1.5%, lleihad ariannol pellach o £1.3 miliwn a fydd yn arwain at doriadau cyllidebol gofynnol pellach o £4 miliwn – a fydd eto'n cael effaith ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i'n cymunedau.

Dyweddodd y Cynghorydd Kevin O'Neill, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful: "Mae gosod y gyllideb yn gofyn am ddull partneriaethol o weithio sy'n cynnwys y Cyngor a chi, breswylwyr Merthyr Tudful.

"Rwyf wedi bod yn gweithio'n agos â fy Nghabinet er mwyn mabwysiadu dull rhagweithiol i reoli cyllid y Cyngor ac rydym am ymgysylltu â chi cyn i ni wneud unrhyw ymrwymiad am sut y byddwn yn gwario'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

"Er mwyn gwneud yr arbedion hyn, mae angen i ni fod yn awdurdod lleol sy'n fwy effeithlon ac effeithiol gan wneud penderfyniadau a allai gynnwys codi'r Dreth Gyngor, lleihau nifer y gwasanaethau – ac hyd yn oed a fydd rhai gwasanaethau'n cael eu torri'n llwyr.

"Mae'ch safbwyntiau'n bwysig ac yn ystod yr amseroedd heriol hyn o lymdwr mae'n rhaid i ni barhau i weithio gyda'n gilydd."

Er mwyn cael dweud eich dweud am flaenoriaethau'r Cyngor a'r gyllideb, gallwch gwblhau holiadur ar lein drwy fyd i www.cwmrtafhub.co.uk a dewis Arolygon Byw/Live Surveys.

Gellir gofyn am gopiau caled o holiaduron drwy ffonio (01685) 725052.

Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â digartrefedd

Mae sefydliadau ac unigolion ledled Merthyr Tudful yn gweithio ar y cyd i fynd i'r afael â phroblem ddigartrefedd y fwrdeistref sirol.

Mae aelodau a swyddogion CBS Merthyr Tudful, asiantaethau, elusennau a gwirfoddolwyr yn gweithio ar y cyd yn dilyn digwyddiad digartrefedd y Cyngor, 'Byddwch yn Rhan o'r Ateb'; digwyddiad cyntaf o'i fath a gynhaliwyd yng Nghanolfan Fusnes Orbit.

Roed y siaradwyr gwadd yn cynnwys Carl Spiller o Dîm Digartrefedd Llywodraeth Cymru, Jennie Bibbings, Rheolwr Ymgyrchoedd Shelter Cymru a Julian Pike, Rheolwr Tai a Diogelwch Cymunedol CBSMT.

Dyweddodd Julian Pike wrth y detholion fod cynnydd sylweddol wedi bod yn niferoedd y digartref ym Merthyr Tudful, fel sydd wedi bod yn genedlaethol. Mae'r broblem yn un anodd ei datrys gan fod 70% o'r digartref yn sengl ac mai ond nifer cyfyngedig o lety sydd ar gael yn lleol ar gyfer unigolion sengl. Roedd gan nifer gynyddol o achosion anghenion cymhleth yn ogystal sydd felly'n ei gwneud hi'n anos ac yn fwy heriol fyth i ddod o hyd i lety addas.

Bob blwyddyn, roedd yn ofynnol i'r Cyngor, ar gais Llywodraeth Cymru wneud 'Cyfrif o'r Sawl sy'n Cysgu yn yr awyr Agored' a dangosodd yr arolwg diweddar ym Merthyr Tudful fod wyth o bobl yn cysgu yn yr awyr agored, o'i gymau â phedwar yn Nhachwedd 2016, ychwanegodd.

"Mae digartrefedd yn broblem sydd ar gynydd yn genedlaethol ac yn lleol a daw llawer ohono yn sgil Diwygio Lles," dywedodd Julian Pike. "Mae CBSMT eisoes wedi ad-drefnu rhai gwasanaethau er mwyn cwrdd â gofynion cynyddol ond rydym yn estyn allan i'n partneriaid am gymorth er mwyn dod o hyd i atebion cynaliadwy ar gyfer pobl leol sy'n ddigartref."



Cyhoeddodd y Cynghorydd Geraint Thomas, Aelod o Gabinet CBSMT ar gyfer Adfywio a Diogelwch fod Lloches Nos y Gaeaf ym Merthyr yn agor am y chweched flwyddyn o'r bron y gaeaf hwn. Dylai unrhyw un sy'n cysgu yn yr awyr agored ac sydd angen defnyddio'r lloches ymweld â'r Tîm Atebion Tai yn y Ganolfan Ddinesig gan na chaniateir mynediad uniongyrchol.

"Mae'r ffaith ein bod wedi penderfynu trefnu'r digwyddiad hwn heddiw yn dangos fod y Cyngor yn ymwybodol o'r broblem yn lleol ac yn genedlaethol ac mae'n tynnu sylw at barodrwydd swyddogion

a chynghorwyr i weithio gyda'n partneriaid er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, sydd yn aml yn un cymhleth," dywedodd.

"Nid yw digartrefedd yn fater sy'n ymwneud â thai - mae dipyn ehangach na hynny. Mae'n broblem gymdeithasol ac yn un all gael effaith andwyol ar unigolion, teuluoedd a chymunedau.

"Os all pob unigolyn ac asiantaeth sydd yma heddiw wneud ymdrech i weithio'n agosach at ei gilydd, rwy'n hyderus y gall ein hymdrechion ar y cyd gael canlyniadau llawer mwy pellgyrhaeddol er mwyn ymdrin â digartrefedd."



CADW'N IACH Y GAEAF HWN

Gall y gaeaf fod yn gyfnod anodd iawn i bobl hŷn ac rydym wedi casglu cynghorion ynghyd er mwyn eich cynorthwyo i fyw'n iach a hapus y gaeaf hwn..

Ydych chi'n gymwys ar gyfer brechiad rhag y fflw sy'n rhad ac am ddim? Gwiriwch gyda'ch fferyllfydd/Meddyg Teulu – osgowch y rhuthr ac ewch mewn da bryd.

Ydych chi'n derbyn presgripsiynau amlroddadwy? Sicrhewch eu bod yn cael eu cwblhau o flaen llaw. Mae amryw o feddygfeydd a fferyllfeydd ar agor am lai o oriau dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Oes gennych annwyd neu wddf tost? Does dim angen i chi weld eich Meddyg Teulu – gofynnwch i'ch fferyllfa/fferyllfydd am gyngor.

Cadwch yn gynnes trwy wisgo haenau o ddillad yn y tŷ a thu allan. Defnyddiwch botel ddŵr poeth neu flanced drydan i'ch cadw'n gynnes yn y gwely.

Sicrhewch eich bod yn cael o leiaf un pryd poeth y dydd – mae bwyta'n gyson yn gymorth i gadw'n gynnes. Sicrhewch eich bod yn cael diodydd poeth ac oer yn gyson trwy'r dydd..

Sicrhewch fod y tymheredd yn iawn - gosodwch eich gwres canolog rhwng 18-21°C.

Mae larwm carbon monocsid/larwm dân mor bwysig â larwm fwg a gall achub eich bywyd.

Maent ar werth mewn siopau DIY ac yn hawdd i'w gosod a'u defnyddio. Hefyd, sicrhewch fod eich larwm fwg yn gweithio. Gallwch ofyn i'ch gwasanaeth tân lleol am wiriad diogelwch tŷ sy'n rhad ac am ddim. Efallai eich bod yn gymwys i gael larymau mwg wedi eu gosod yn rhad ac am ddim.

Gwaredwch hen sliperi er mwyn osgoi baglu a chwympo ac os ewch y tu allan, gwisgwch esgidiau addas sydd â gafael da.

Storiwch fwydydd mewn tun a bwydydd wedi eu rhewi, fel na fydd angen i chi fynd allan pan fydd yn oer neu'n rhewlyd.

Dyma'r tymor o fod yn llawen ond peidiwch â'i gorwneud hi. Peidiwch â gor-yfed alcohol, bwytwch ddietyd cytbwys a chadwch yn gorfforol brysur - gall hyd yn oed ymarfer corff cymedrol gadw'ch corff yn gryf a chynorthwyo i rwystro cwmpadau.

Sicrhewch fod eich twrci wedi dadmer yn gywir ac wedi cael ei goginio'n gywir – hyd nes bod y suddion yn llifo'n glir.

Mae germau'n ymledu o gig amrwd a dofednod i arwyneb gwaith, byrddau torri, platiau ac offer - glanhewch hwy'n drwyadl cyn eu defnyddio ar gyfer bwydydd sydd wedi cael eu coginio.

Oes gennych fotwm llinell fywyd? Gwisgwch eich breichled/crogdllws bob amser pan fyddwch gartref.

Os oes gennych broblem ar y galon neu'r frest, arhoswch gartref yn ystod cyfnodau o dywydd oer. Os oes raid i chi fynd allan, lapiwch sgarff o amgylch eich ceg er mwyn amddiffyn eich ysgyfaint rhag yr awyr oer.

Peidiwch â bod yn unig y gaeaf hwn. Os ydych chi, aelod o'r teulu neu gymydog yn poeni am aelod o'r teulu neu gymydog oedrannus, cysylltwch â'ch cyngor lleol neu ffoniwch linell gymorth Age Cymru yn rhad ac am ddim ar 08000 223 444, Dydd Llun i Ddydd Gwener, 9am-5pm.

Hefyd, gallwch gyrchu'r canllaw unigrwydd am ragor o wybodaeth: <http://www.ageingwellinwales.com/Libraries/Documents/Loneliness-pocket-guide-eng.pdf>.

Gallwch hefyd gysylltu ag Elaine James, eich Cydlynnydd Cymunedol lleol er mwyn canfod beth sy'n mynd ymlaen o'ch cwrpas ac i gyfranogi: elaine.james@vamt.net <<mailto:elaine.james@vamt.net>> / 07580 866547.

Prif Gynghorion:

* Gofynnwch i'ch teulu neu'ch ffrindiau os allant alw i'ch gweld yn fwy aml yn ystod cyfnodau hir o dywydd oer.

* Cadwch dortsh mewn lle cyfleus, rhag ofn i chi golli trydan a sicrhewch fod eich radio, ffôn symudol, gliniadur neu dabled wedi eu trydanu'n llawn.

* Mae bod yn gorfforol brysur yn angenrheidiol ar gyfer eich lles a'ch ffitrwydd cyffredinol - cerddwch o amgylch a lledaenwch eich tasgau trwy gydol y dydd. Os yw cerdded yn anodd, gwnewch ymarferion mewn cadair wrth eistedd neu afael ar gefn cadair. Gall hyd yn oed symud eich breichiau a'ch coesau a bysedd eich traed eich cynorthwyo i gadw'n gynnes.

* Ystyriwch gymryd atchwanegiad fitamin D.

* Cadwch gymysgedd o halen a thywod wrth law er mwyn eu rhoi ar stepiau a llwybrau yn ystod tywydd rhewlyd.



Diogelu – mae'n fusnes i bawb

Cynhaliwyd Wythnos Diogelu 2017 rhwng 13 a 17 Tachwedd. Yn ystod yr wythnos, cynhaliwyd digwyddiadau ar gyfer y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn risg.

Y Cyngh David Hughes, Aelod o'r Cabinet dros Wasanaethau

Cymdeithasol wrth y stondinau gwybodaeth #Safeguarding yng Nghanolfan Hamdden Merthyr Tudful

Mae Diogelu'n flaenllaw i'r holl waith yr ydym yn ei wneud ac mae'n fusnes i bawb. Rydym yn cefnogi'r wythnos ddiogelu a'r holl weithgareddau a drefnwyd er mwyn codi proffil diogelu, nid yn unig

gydag ymarferwyr proffesiynol ond hefyd gyda'n cymuned ac rydym yn falch o'r gwaith caled sydd wedi cael eu gwneud er mwyn sicrhau ei llwyddiant parhaol"

Ydych chi'n gwybod beth i'w wneud os ydych yn bryderus ynghylch rhywun?

Os credwch fod rhywun yn cael ei niweidio neu ei fod mewn risg o gael ei niweidio yna dylech nodi hynny'n syth. Ymdrinnir â phob galwad yn ddifrifol ac nid oes raid i chi roi'ch enw.

Rhwng 9 y bore a 5 y prynhawn, ffoniwch 01685 725000

Ar ôl 5 y prynhawn neu yn ystod y penwythnos, ffoniwch 01443 743665

Os credwch fod rhywun mewn risg gwirioneddol ddifrifol o gael ei niweidio, ffoniwch 999 a siaradwch â'r Heddlu.

Os hoffech nodi digwyddiad nad yw'n un brys neu fod gennych broblem neu yr hoffech wneud ymholiad cyffredinol, gallwch ffonio 101, y rhif 24 awr ar gyfer yr heddlu nad yw ar gyfer achosion brys. Ffoniwch 101 pan fydd y digwyddiad yn llai argyfyngus na 999.

Busnesau Merthyr Tudful – helpwch bobl ifanc i ddod o hyd i waith!

Mae cwmnïoedd cynhyrchu a pheiranyddol ym Merthyr Tudful yn cael eu hannog i gynorthwyo pobl ifanc i ddod o hyd i waith drwy gefnogi cynllun a fydd hefyd o fudd i'w busnesau.

Nod Cynllun Prentisiaeth a Rennir CBSMT ac Aspire yw gwella datblygiad sgiliau yn y sector er mwyn cynorthwyo twf busnes a chynllunio ar gyfer ollynaeth gan ddarparu cyfleoedd uchelgeisiol ar gyfer pobl ifanc ledled y fwrdeistref sirol.

Mae Cynllun Aspire yn cyflogi prentisiaid - yn dilyn proses ddethol a chyfweiliad - yna'n eu gosod gyda chwmni cynhyrchu ar gyfer holl gyfnod eu prentisiaeth (dw neu dair blynedd.)

Cytunir ar lwybr dysgu gan y busnes, y prentis a phartner darparu'r cynllun, Coleg Merthyr Tudful. Bydd y prentisiaid yn symud o gyflogwr i gyflogwr er mwyn diwallu unrhyw fylchau mewn sgiliau a byddant yn derbyn tâl sy'n uwch na'r

lleiafswm cyflog ar gyfer prentisiaid.

Cynigir cymhelliannau ariannol yn ogystal i gyflogwyr er mwyn cyfranogi yn y cynllun.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod rhwng 16 a 24 mlwydd oed; feddu ar bum gradd A-C TGAU gan gynnwys pynciau STEM a llwyddo mewn arholiadau lefel A mewn pynciau STEM – yn enwedig mathemateg a gwyddoniaeth; a bod naill ai'n dechrau ar VRQ, wedi cwblhau Cynllun Peirianeg Uwch neu Llwybrau at Brentisiaethau neu fod wedi cwblhau VRQ yn y coleg.

Os oes gennych gwmni cynhyrchu a/neu beiranyddol ym Merthyr Tudful ac os hoffech wybod rhagor am y cynllun, cysylltwch â Jared Green, Cydlynnydd Cynllun Aspire ar 01685 724919, e-bost jared.green@merthyr.gov.uk neu Tracey Davies ar 01685 725268, e-bost tracey.davies@merthyr.gov.uk

Dwy wobwr newydd i Ferthyr Tudful

Roedd y Cyngor wrth eu bodd i dderbyn dwy wobwr yn Redhouse fis Medi – sef ‘Gwobr Enfys’ a ‘Gwobr Arian insport’.



Cafodd y Wobr Enfys ei chyflwyno gan ASD Info Wales a'i rhoi i Ferthyr Tudful gan fod gan y dref Stryd Fawr/ Canolfan Siopa sy'n Ymwybodol o Awtistiaeth.

Mae unigolion Awtistig yn aml yn cael trafferth cael mynediad at gyfleusterau cymunedol, gweithgareddau hamdden a gwasanaethau gofal cymdeithasol. Drwy'r

Wobr Enfys, mae siopau, cymunedau a gwasanaethau'n derbyn hyfforddiant i ddatblygu dealltwriaeth, gwneud addasiadau rhesymol a bod yn oddefgar fel bod unigolion awtistig yn gallu byw bywydau cyflawn a chyflawni eu potensial. Am ragor o wybodaeth ewch i: <http://asdinforwales.co.uk/can-you-see-me>



Gwnaeth y Cyngor hefyd dderbyn ‘Gwobr Arian insport’.

Rhaglen Chwaraeon i'r Anabl yw insport, sydd wedi ei hanelu at gefnogi a herio sefydliadau i fod yn gynhwysol o ran darparu chwaraeon a gweithgareddau corfforol.

Mae gan y rhaglen 3 strand – clwb insport, insport NGB a Datblygiad insport (Awdurdod Lleol). Mae sefydliadau'n gweithio drwy lefelau insport o'r Rhuban i'r Aur, gan ddatblygu eu darpariaeth yn erbyn nodau craidd a meysydd gwaith a ddynodwyd ar bob lefel.

Ym mis Chwefror, cyflwynodd

CBS Merthyr Tudful eu cyflwyniad insport Arian i banel insport, a benderfynodd yn unfrydol ar wobwr Arian insport, gan wneud Merthyr Tudful yn un o'r pum awdurdod lleol yng Nghymru yn unig, i gyrraedd y lefel arian.

Am ragor o wybodaeth ewch i: www.merthyr.gov.uk/activemerthirtydfil



– Active Merthyr Tydfil



@ActiveMerthyrTydfil

#MerthyrFosters

Mae Tîm Maethu y Cyngor wedi bod allan yn y Fwrdeistref Sirol fel rhan o'u hymgyrch i

recriwtio gofalmwyr maeth. Os oes gennych ddiddordeb

mewn bod yn ofalwr maeth, ffoniwch 0800 678 3798 neu e-bostiwch foster.adopt@merthyr.gov.uk



Y Cyngor yn edrych ar ffyrdd i ymdrin â thagfeydd

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae tagfeydd traffig ym Merthyr Tudful wedi tyfu i fod yn broblem gynyddol ac yn un sy'n effeithio ar fywydau'r rhai sy'n byw ac sy'n ymweld â'r Fwrdeistref Sirol.

Mae cynnydd mewn traffig, yn enwedig yng nghanol ein tref ac mewn ardaloedd fel cylchfan Tesco a Rhiw Twynrodyn lle y gwelir tagfeydd helaeth yn ystod oriau teithio brig.

Hefyd, mae'r traffig trwm ar Rhiw Twynrodyn wedi creu newidiadau yn ansawdd yr aer gan gynyddu llygredd yn yr aer sy'n effeithio ar y sawl sy'n byw ar y ffordd.

Yn sgil y cynnydd yn y traffig a ddaw o ganlyniad i ddatblygiadau fel Trago Mills,

mae angen dod o hyd i atebion brys er mwyn cadw'r traffig i lifo ledled Merthyr Tudful.

Dros y misoedd diwethaf, mae'r Cabinet wedi bod yn gweithio'n agos â'r swyddogion perthnasol a phartneriaid allweddol eraill er mwyn gweld sut y gellir datrys y broblem hon.

Er mwyn ceisio lliniaru rhywfaint ar y traffig ar ein ffyrdd, mae strategaeth rheoli traffig yn cael ei ddatblygu er mwyn edrych ar y rhwydweithiau ffyrdd presennol ac ar foddau o wella llif y traffig trwy'r Fwrdeistref Sirol.

Bydd cynllun gweithredu rheoli ansawdd yr aer hefyd yn ffurfio rhan o'r strategaeth hon

i ddynodi dulliau o leihau lefelau llygredd a gwella safonau aer ar Rhiw Twynrodyn.

Trwy gydol y broses, byddwn yn ymgysylltu â phob rhanddeiliad er mwyn trafod atebion posibl fel edrych ar lwybrau amgen er mwyn arall gyfeirio lefelau uchel o draffig gan ddefnyddio arwyddion ffyrdd ychwanegol.

Mae'ch safbwyntiau'n bwysig er mwyn canfod atebion cadarnhaol i'r broblem hon.

Edrychwch am y diweddraf ar y mater yn ein cylchgrawn Contact neu ewch i wefan y Cyngor www.merthyr.gov.uk a safleoedd cyfryngau cymdeithasol Facebook a Twitter.





Trawsnewidiad ysgol i fod yn ganolfan ddysg 'ragorol' i'r 21ain ganrif



un o ysgolion uwchradd hynaf Merthyr Tudful wedi cael ei thrawsnewid i fod yn un o'i rhai o'r radd flaenaf, diolch i raglen ailwampio £12m.

Ysgol Uwchradd Afon Taf oedd prosiect cyntaf y Cyngor Bwrdeistref Sirol i dderbyn cefnogaeth Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, Llywodraeth Cymru ac mae'r gwaith newydd gael ei gwblhau ar ôl mwy na dwy flynedd.

Mae'r adeilad o'r 1960au wedi cael ei ddiweddarau'n llwyr, gyda llawr arbenigol wedi ei osod yn y gymnasium a dodrefn gosodedig ac offer newydd yn cael eu darparu mewn ardaloedd addysgu arbenigol yn cynnwys ystafelloedd TG, gweithdai dylunio technoleg a labordai gwyddoniaeth, celf a thechnoleg bwyd.

Mae technoleg ddiweddaraf VDU ym mhob ystafell ddosbarth a sgriniau addysgu

rhwyngweithiol, gyda goleuo cynhyrchu, sain, tracio llenni llwyfan ac offer taflunio yn y brif neuadd ymgynnull a digwyddiadau.

Cafodd y waliau presennol eu hinswleiddio i wella effeithlonrwydd ynni drwy ostwng faint o wres sy'n cael ei golli, gyda chladin drosto â phaneli gwydn, di-dân hawdd gofalu amdanynt. Cafodd y to ei inswleiddio hefyd i estyn bywyd yr ysgol gan o leiaf 30 mlynedd.

"Y nod oedd lleihau lleoedd dros ben sylweddol yn yr ysgol ynghyd â gwella ansawdd yr adeilad – a oedd ar un adeg yr adeilad ysgol uwchradd gwaethaf ei gyflwr yn y fwrdeistref sirol," dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogol, y Cynghorydd Howard Barrett.

"Er mwyn sicrhau fod yr ysgol yn gallu gweithredu'n

barhaus ac yn effeithlon yn ystod yr adeiladu, cafodd y gwaith ei rannu'n bedwar cam, gyda'r contractwyr hefyd yn cael yr her o gynnal y gwasanaethau mecanyddol a thrydanol cyfredol tra bo gwasanaethau newydd yn rhedeg yn gyfochrog am y cyfnod."

"Rwy'n meddwl y byddai pawb yn cytuno fod y cyfleusterau yn Afon Taf yn rhagorol bellach. Mae ein cyfleusterau yn drawiadol, sef rhai chwaraeon, labordai gwyddoniaeth, sawl ystafell cyfrifiadu'r dechnoleg orau, a ffreutur newydd mewn ysgol sy'n gweddu addysg fodern."

"Bydd y cyfleusterau 21ain mae'r ysgol yn eu darparu bellach yn galluogi ein holl ddisgyblion i gyfranogi'n llawn ym mhob elfen o ddarpariaeth all-



gwrwiclaidd, gan sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn cael y cyfleusterau priodol i gyflawni eu potensial."

Dywedodd Aelod o'r Cabinet dros Ddysgu y Cyngor Bwrdeistref Sirol, y Cynghorydd Lisa Mytton:

"Yr egwyddorion pwysicaf oedd trawsnewid golwg a chyflwr yr ysgol i wella effeithlonrwydd ynni yn

sylweddol, isafu cynnal a chadw yn yr hir dymor a darparu amgylchedd addysgu 21ain ganrif sy'n ysbrydoli."

"Rwyf wrth fy modd i ddweud ei fod yn amlwg bod hyn wedi cael ei gyflawni i gynhyrchu canolfan ragorol i ddysgu disgyblion, rhieni, staff a'r gymuned yn gyffredinol."



Plant sy'n derbyn gofal ym Merthyr Tudful yn dod at ei gilydd i ddathlu'r hyn maen nhw wedi ei gyflawni



Cafodd digwyddiad dathlu ei gynnal ym mis Tachwedd fel cydnabyddiaeth o'r holl bethau mae plant sy'n derbyn gofal ym Merthyr Tudful wedi ei gyflawni.

Cyflwynwyd gwobrau i'r plant a'r bobl ifanc am bresenoldeb da yn yr ysgol a chyflawniad addysgiadol yn ogystal â'u cyfraniad at chwaraeon, cerddoriaeth a gwirfoddoli.

Cynhaliwyd y digwyddiad hwn, oedd â phresenoldeb da, yng Ngholeg Merthyr Tudful, ym mis Tachwedd. Cafodd y gwobrau eu cyflwyno gan y Cynghorydd David Hughes, Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Hyrwyddwr Diogelu, ynghyd â Tyler, Ruth a Rachel Charleston.

Efeilliaid o Ferthyr Tudful yw Tyler a Ruth sydd ar hyn o bryd yn cael eu maethu gan deulu yn Llanelli. Ym mis Mawrth 2017, gwnaeth yr efeilliaid gystadlu mewn cystadleuaeth sgïo yng Ngemau Arbennig Olympaidd y Gaeaf yn Awstria gan ennill tri medal – dau aur i Tyler ac un efydd i Ruth.

Roedd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Kevin O'Neill hefyd yn bresennol, ynghyd ag Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd Kevin Gibbs a Chadeirydd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol, y Cynghorydd Chris Davies.

Da iawn bawb a dderbyniodd wobwr!